

PEEL: Effeithlonrwydd yr heddlu 2015

Archwiliad o Heddlu Gogledd Cymru



Hydref 2015

© HMIC 2015

ISBN: 978-1-78246-914-8

www.justiceinspectores.gov.uk/hmic

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?..... | 4 |
| Dyfarniad cyffredinol..... | 4 |
| Crynodeb..... | 4 |
| Rhifau'r heddlu..... | 7 |
| Cyflwyniad..... | 9 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw? | 10 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano? | 10 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw?..... | 10 |
| Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd?..... | 11 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw?..... | 13 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau?. | 13 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau? | 14 |
| Crynodeb o ganfyddiadau..... | 16 |
| Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu? | 17 |
| Pa mor dda mae model gweithlu presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol? | 17 |
| Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?..... | 20 |
| Crynodeb o ganfyddiadau..... | 21 |
| Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir? | 23 |
| A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwysu'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15? | 23 |
| Pa mor dda mae'r heddlu wedi cydbwysu'r gyllideb ar gyfer 2015/16?..... | 25 |
| Pa mor dda mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill?..... | 25 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant?..... | 26 |

| | |
|---|-----------|
| Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throseddu'r PCC? | 28 |
| Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throseddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol? | 28 |
| Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu?29 | |
| Crynodeb o ganfyddiadau..... | 29 |
| Atodiad A – Dyfarniadau HMIC | 30 |
| Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7..... | 31 |

Trosolwg – Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Dyfarniad cyffredinol¹



Da

Canfu HMIC bod Heddlu Gogledd Cymru yn ddigonol barod i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Mae'r llu wedi rheoli ei gyllid yn dda. Mae wedi wynebu gostyngiadau llai na'r cyfartaledd yn ei gyllidebau ac mae felly wedi wynebu llai o doriadau swyddi, ond mae angen gwneud mwy o waith i gynllunio sut fydd yn rheoli gostyngiadau yn y dyfodol. Yn rhaglen archwiliad gwerthfawrogi'r heddlu'r llynedd, a ystyriodd sut oedd heddluoedd wedi bodloni her y cyfnod adolygiad o wariant cyntaf, dyfarnwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn dda.

Crynodeb

Mae HMIC yn barnu bod Heddlu Gogledd Cymru yn dda. Mae'r heddlu wedi rheoli ei gyllid yn dda ac wedi gallu lleihau effaith toriadau cyllideb ar blismona rheng flaen. Dim ond lleihad bychan iawn a gafwyd ym maint cyffredinol y gweithlu. Mae'r heddlu'n gweithio'n adeiladol ar y cyd â heddluoedd eraill a phartneriaid lleol. Mae wedi sefydlu gweledigaeth glir i wella plismona ac mae staff yn gweithio'n dda i gyflawni gwasanaethau gwell.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o alw er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau fwyaf effeithiol i flaenoriaethu ac ymateb i anghenion y cyhoedd. Mae angen gwneud mwy i sicrhau y gall swyddogion yr heddlu weithio mor effeithiol â phosibl, trwy ddefnyddio technoleg newydd.

Mae'r model gweithlu presennol wedi ei alinio i'r cynlluniau ariannol ac mae'r arbedion o ostyngiadau yn y gweithlu hyd yn hyn yn gynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r heddlu wedi mabwysiadu polisi o gyflogi mwy o swyddogion yr heddlu nag y caniateir yn ei gyllideb ac mae'n defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwysu'r gyllideb. Nid yw'r ymagwedd hon yn gynaliadwy. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn y camau cynnar o bennu sut allai fod angen newid y model plismona i alluogi toriadau pellach yn niferoedd staff a darparu lefelau cynaliadwy ac effeithiol o blismona ar draws Gogledd Cymru.

¹ Rhagorol, Da, Angen gwelliant neu Annigonol – gweler Atodiad A.

Mae'r heddlu wedi cynllunio cyllideb gytbwys trwy gydol yr adolygiad o wariant ac wedi gorffen pob blwyddyn hyd at 2014/15 gyda thanwariant. Golyga hyn ei fod wedi gallu cronni lefel uchel o gronfeydd, gyda'r bwriad o fuddsoddi yng nghost newid yn y dyfodol.

| <p>Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?</p> | <p>Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?</p> | <p>Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?</p> |
|---|--|--|
| <p> Da</p> | <p> Angen gwelliant</p> | <p> Da</p> |
| <p>Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o alw er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau fwyaf effeithiol i flaenoriaethu ac ymateb i alw. Mae wedi gwella ei ddealltwriaeth o alw ac yn rheoli galw yn well ar y pwynt cyswllt cyntaf.</p> <p>Mae yna strwythurau llywodraethu clir a thrylwyr ar waith i alluogi tîm arweinyddiaeth yr heddlu i gynnal trosolwg o berfformiad a chynnydd ar draws yr holl feysydd busnes a chynlluniau arbedion. Fodd bynnag, nid oes rhaglen newid trosfwaol ar gyfer pawb sy'n ymwneud i ddeall y gyd-ddibyniaeth rhwng yr holl ffrydiau gwaith, cynlluniau arbedion, adolygiadau a phrosiectau</p> | <p>Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi wynebu gostyngiadau tebyg yn ei wariant â'r rhan fwyaf o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi cael incwm ychwanegol o'r dreth gyngor i wneud iawn yn rhannol am ostyngiadau grant y llywodraeth. Mae'r heddlu felly wedi cyflawni ei arbedion gyda thoriadau llai na'r cyfartaledd i'r gweithlu a dim ond newid cyfyngedig i'r model gweithredu. Mae'r heddlu ar hyn o bryd yn cyflogi mwy o swyddogion yr heddlu nag y mae wedi darparu ar eu cyfer yn y gyllideb, i'w alluogi i fodloni'r holl alwadau ac mae wedi gallu gosod adnoddau ychwanegol mewn ardaloedd sy'n flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn fforddiadwy dim ond am fod y comisiynydd heddlu a</p> | <p>Mae gan Heddlu Gogledd Cymru hanes da o reoli ei gyllid, gyda gostyngiad bychan iawn yn niferoedd swyddogion yr heddlu. Mae wedi cyflawni cyfanswm ei ofyniad arbedion o £17.9m dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf. Trwy gydol y cyfnod hwn mae wedi wynebu llai o doriadau cyllideb na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill. Mae'r heddlu wedi cynllunio cyllideb gytbwys trwy gydol yr adolygiad o wariant ac wedi gorffen pob blwyddyn hyd at 2014/15 gyda thanwariant. Mae hyn wedi golygu bod yr heddlu wedi gallu cynyddu ei gronfeydd mewn cyllid a glustnodwyd ar gyfer cost newid yn y dyfodol i lefel uchel. Mae'r heddlu wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16 gan wneud arbedion o</p> |

| | | |
|--|---|--|
| <p>eraill sydd eisoes wedi eu gweithredu, ar y ffordd, ac yn arfaethedig</p> <p>Mae'r heddlu wedi bod yn araf i ddatblygu ymagwedd i fuddsoddi mewn technoleg newydd i uchafu effeithlonrwydd trwy, er enghraifft, ddarparu mynediad i ddata symudol ar gyfer staff rheng flaen. Gallai hyn ddangos cyflymder newid ac mae'n rhwystr posibl i alluogi'r heddlu i reoli gostyngiadau gweithlu gyda'r effaith isaf posibl ar wasanaeth.</p> <p>Mae HMIC yn cydnabod yr heriau cymhleth mae Heddlu Gogledd Cymru yn wynebu wrth ddatblygu partneriaethau effeithiol yn lleol a rhanbarthol. Mae ymdrechion amlwg yr heddlu i gronni adnoddau cymaint â phosibl i sicrhau mwy o arbedion a gwasanaethau mwy gwydn wedi ein plesio.</p> | <p>throsedd yn ariannu cost swyddogion yr heddlu ychwanegol o'r lefel uchel bresennol o gronfeydd; nid yw hyn yn gynaliadwy.</p> <p>Mae'r heddlu'n rhagweld y bydd angen lleihau niferoedd y gweithlu i gyflawni gostyngiadau i gyllideb yn y dyfodol, er bod hyn yn dal o gyfran llawer is na'r rhan fwyaf o heddluoedd.</p> <p>Mae'r heddlu eisoes yn y camau cynnar o gynllunio model gweithredu newydd sy'n gallu darparu plismona effeithiol gyda llai o staff. Nid yw wedi cysylltu'r cynllun gyda gwaith ar leihau galw neu ddefnydd o ddata symudol a gweithio ystwyth yn y dyfodol. Felly nid yw Heddlu Gogledd Cymru yn gallu gwneud penderfyniadau am y model yn y dyfodol nes y gwneir cynnydd pellach ar ddatblygu a chydlynu nifer o feysydd gwaith cysylltiedig.</p> | <p>£4.5m.</p> <p>Arbedwyd mwy o arian nag oedd angen ac mae hyn wedi galluogi'r heddlu i gael un o'r gostyngiadau lleiaf yn nifer swyddogion yr heddlu yn genedlaethol dros y cyfnod adolygiad o wariant.</p> <p>Mae i ba raddau mae'r heddlu'n cydweithredu gydag eraill yn gymharol gyfyngedig. Mae wedi gwneud rhywfaint o ddefnydd o gyllid allanol, ond ni fu'n llwyddiannus mewn cais diweddar am gyllid mewn technoleg newydd.</p> <p>Mae'r heddlu'n cydweithio'n agos gyda'r comisiynydd heddlu a throsedd ac mae cynlluniau ariannol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yng nghynllun yr heddlu a throseddu. Ceir cynlluniau manylach i ddarparu hyder y gall yr heddlu gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion gofynnol hyd at 2016/17. Mae nawr yn datblygu cynlluniau pellach i leihau gwariant wedi 2016/17.</p> |
|--|---|--|

Rhifau'r heddlu



Sefyllfa ariannol

Newid a ragwelir mewn gwariant 2015/16 i 2018/19




Mae'n bwysig nodi bod rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. O ganlyniad, efallai nad yw'r ffigur arbedion uchod yn adlewyrchu'r arbediad llawn y bydd rhaid i'r heddlu wneud. Defnyddiwyd GRE 2014/15 yma fel llinell sylfaen.




Darparu plismona


Newid arfaethedig yn nifer swyddogion yr heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018



Newid arfaethedig yng nghyfanswm gweithlu'r heddlu o 31 Mawrth 2015 i 31 Mawrth 2018




Arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2010



A rfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2015



Cyfran arfaethedig o swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen weithredol ar 31 Mawrth 2018





Sefydliad

Cost swyddogion yr heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15)

Gogledd Cymru

England and Wales

£105

£115

Cost gweithlu'r heddlu fesul pen o'r boblogaeth yn yr heddlu o gymharu â Chymru a Lloegr (2014/15)

Dyfed-Powys

England and Wales

£163

£165



Ystadegau allweddol

Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o 31 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2015

Gogledd Cymru

Cymru a Lloegr

-0.3%

+2%

Newid mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (ac eithrio twyll) o'r 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015

Gogledd Cymru

Cymru a Lloegr

-18%

-16%

Bodddhad dioddefwyr yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015

Gogledd Cymru

Cymru a Lloegr

81.8%

83.8%

Newid mewn bodddhad dioddefwyr o'r 12 mis i 31 Mawrth 2011 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015

Gogledd Cymru

Cymru a Lloegr

Dim newid

Dim newid

Bodddhad dioddefwyr: Cyfwng hyder Gogledd Cymru +/- 1.8 y cant. Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

I weld manylion llawn y data a ddefnyddiwyd yn y graffig hwn, gweler Atodiad A yn yr adroddiad cenedlaethol effeithlonrwydd.

Cyflwyniad

Yn Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai cyllid canolog i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn lleihau o 20 y cant yn y pedair blynedd rhwng Mawrth 2011 a Mawrth 2015. Nawr, mewn cyfnod o ostyngiadau parhaus yn y gyllideb, mae angen i heddluoedd barhau i sicrhau arbedion wrth ganolbwyntio ar leihau troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel.

Yn rhan o'i archwiliadau blynyddol i effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL), asesodd rhaglen effeithlonrwydd HMIC sut mae heddlu yn uchafu ar ganlyniadau o'i adnoddau sydd ar gael. Fe adolygom gynllunio ariannol a gweithlu heddluoedd wrth archwilio cwestiynau ehangach cost, gallu a chynhyrchiant. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar y cwestiwn cyffredinol, 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?'

I ateb y cwestiwn hwn fe edrychom ar dri maes:

- Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?
- Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?
- Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Yn ystod ein harchwiliad, fe gasglom ddata a chynlluniau o heddluoedd, holi'r cyhoedd i weld a oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth a dderbyniont a chyflawni archwiliadau yn yr heddlu. Cynhaliom gyfweiliadau gyda phrif gwnstabiliaid a phrif swyddogion sy'n gyfrifol am gyllid, newid sefydliadol, adnoddau dynol a pherfformiad ym mhob heddlu a chynnal grwpiau ffocws o swyddogion a staff o amrywiol raddau a rhengoedd, ac ymweld yn ddirybudd â gorsafoedd heddlu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau o'r archwiliad eang hwn o Heddlu Gogledd Cymru.

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw?

Archwiliodd HMIC pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw am ei wasanaethau, a sut mae'n dyrannu ei staff a'r adnoddau ariannol i fodloni'r galw hwnnw. Yna fe asesom a yw'r penderfyniadau hynny yn arwain at ganlyniadau da i'r cyhoedd – bod yr heddlu'n weledol a'u bod yn mynychu'n brydlon os y'i gelwir, eu bod yn brwydro troseddau ac yn cadw cymunedau'n ddiogel, a bod dioddefwyr yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniont.

Pa mor dda mae'r heddlu yn deall y galw amdano?

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd dadansoddi a deall y galw am ei wasanaethau. Darparodd dadansoddiad manwl o'r galwadau a dderbyniwyd yn ystafell reoli'r heddlu yn 2013 ddealltwriaeth llawer mwy soffistigedig o'r ffynonellau a natur y galw. Roedd yn gallu nodi bod hanner y galwadau a dderbyniodd naill ai'n faterion y dylid delio â nhw mewn sefydliad arall neu'n faterion y gellid fod wedi eu hosgoi pe byddai'r heddlu wedi darparu gwell ymateb o'r cychwyn.

Mae'r heddlu'n cyflawni asesiad strategol blynyddol sy'n ceisio nodi'r risgiau allweddol mae cymunedau ledled Gogledd Cymru yn wynebu. Mae hyn yn ystyried bygythiadau a risgiau lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ac yn ystyried gwybodaeth o sefydliadau partner ar draws Gogledd Cymru. Gan ddefnyddio'r asesiad hwn, mae'r heddlu'n gallu nodi mathau troseddau sy'n dod i'r amlwg ac asesu'r lefel o adnoddau sydd angen i ddarparu ymateb effeithiol. Er enghraifft, eleni mae'r heddlu wedi nodi ei fod angen cynyddu ei gynhwysedd i ddelio â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae wedi rhoi mwy o staff yn y tîm sy'n ymchwilio i'r troseddau hyn. Mae hefyd wedi rhoi mwy o adnoddau i mewn i'r uned troseddau seiber.

Pa mor dda mae'r heddlu yn paru adnoddau i alw?

Mae'r heddlu wedi cydnabod nad yw'r dyraniad presennol o adnoddau rhwng y tair ardal plismona daearyddol yn adlewyrchu'r gwahanol alwadau ar ei wasanaethau ar draws y tair ardal. Mae'r modd y dyrannwyd adnoddau dros gyfnod o amser wedi esblygu ac nid yw wedi ei arwain gan unrhyw ddadansoddiad gwrthrychol o alw neu anghenion. Mae'r heddlu wedi adolygu sut y neilltuir adnoddau yn ddiweddar yn defnyddio technegau modelu mwy 'gwyddonol', yn cynnwys model dyrannu cyllideb y Swyddfa Gartref a mynegai amddifadedd lluosog Cymru (mae yna gyswllt clir rhwng ardaloedd amddifadedd uchel a galw am wasanaethau'r heddlu). Mae wedi canfod bod y dyraniad presennol o adnoddau ar draws y tair ardal yn dangos bod yr ardaloedd Gorllewinol a Chanolog yn cael mwy o adnoddau na'r ardaloedd Dwyreiniol.

Gallai hyn olygu bod ardaloedd Dwyreiniol dan fwy o anfantais, ond byddai angen dadansoddiad manwl i sefydlu a yw hyn yn wir. Gan ddefnyddio'r modelu hwn, mae'r heddlu hefyd wedi cyfrifo y gallai weithredu'r model gwasanaeth plismona lleol gyda 51 yn llai o swyddogion.

Pa mor dda mae gwasanaethau'r heddlu'n bodloni'r galw gan y cyhoedd?


I asesu ymateb yr heddlu i alw'r cyhoedd, ystyriodd HMIC ffigurau a chyfraddau troseddau yng Ngogledd Cymru; lefelau boddhad dioddefwyr; a p'un a yw'r heddlu yn defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae perfformiad da ar dacio troseddau a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, mae hyder y cyhoedd a boddhad defnyddwyr yn dal yn isel yng Ngogledd Cymru ac yn bell islaw'r ffigwr ar gyfer heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae'r heddlu'n ymdrechu i ddelio â'r sefyllfa hon ac wedi sefydlu mentrau a strwythur lywodraethu i wella hyder a boddhad.

Er nad yw troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn fesur cyflawn o bell ffordd o'r galw mae heddlu yn wynebu, mae'n darparu dangosydd cymharol o berfformiad ar draws yr holl heddluoedd. Adroddir cyfraddau troseddau fel nifer o droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth ym mhob ardal heddlu i ganiatáu ar gyfer cymharu rhwng ardaloedd. Mae cyfanswm troseddau a gofnodwyd yn cynnwys troseddau seiliedig ar ddiodesfwr (e.e. lladrad) a throseddau heb fod yn seiliedig ar ddiodesfwr (e.e. troseddau cyffuriau). Dangosodd dau draean o heddluoedd gynnydd blynyddol yng nghyfanswm troseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Mae'n debyg bod y cynnydd mewn hwn mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi ei effeithio gan y ffocws o'r newydd ar ansawdd a chydymffuriad cofnodion troseddau ers i HMIC gyflawni archwiliad cenedlaethol o gywirdeb data troseddau yn 2014.

Yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 roedd gan Ogledd Cymru gyfradd troseddau seiliedig ar ddiodesfwr o 47.3 a chyfradd troseddau nad ydynt yn seiliedig ar ddiodesfwr o 5.3 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cynrychioli lleihad (12 y cant) yn y gyfradd troseddau diodesfwr a chynnydd (48 y cant) yn y gyfradd troseddau heb ddiodesfwr ers dechrau'r adolygiad o wariant yn 2010. Yn ystod yr un cyfnod roedd gan Gymru a Lloegr gyfradd troseddau seiliedig ar ddiodesfwr ac nad yw'n seiliedig ar ddiodesfwr o 55.2 a 6.9 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno. Mae hyn yn cynrychioli lleihad yn y ddwy gyfradd troseddau o 15 y cant ac 19 y cant yn y drefn honno ers dechrau'r adolygiad o wariant. Gellir gweld graddfa'r newid mewn cyfraddau troseddau yn Ffigwr 1.

Ffigwr 1: Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fesul 1,000 o'r boblogaeth o Ogledd Cymru yn y 12 mis i 31 Mawrth 2010 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2015, o gymharu â Chymru a Lloegr



Ffynhonnell: Ystadegau troseddau'r Swyddfa Gartref ac amcangyfrifon poblogaeth canol 2013 yr ONS (defnyddir data poblogaeth 2013 ar draws blynyddoedd lluosog i ddatgelu gwir newid mewn troseddau a gofnodwyd, yn hytrach na newidiadau oherwydd newid poblogaeth).

O'r rhai sydd wedi bod yn ddiodefwyr troseddau yng Ngogledd Cymru, roedd 81.8 y cant² yn fodlon gyda'u profiad cyfan gyda'r heddlu yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015. Mae hyn yn is na'r gyfradd boddhad diodefwyr cenedlaethol o 83.8 y cant³ dros yr un cyfnod amser. Ni chafwyd unrhyw newid arwyddocaol mewn boddhad diodefwyr o'r 12 mis i 31 Mawrth 2011 a'r 12 mis i 31 Mawrth 2015 yng Ngogledd Cymru

Bu HMIC yn monitro sut mae heddlu yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn rhan o'r archwiliad. Mae Ffigwr 2 isod yn dangos bod Heddlu Gogledd Cymru yn defnyddio ystod o ddulliau (yn cynnwys Facebook, Twitter ac e-bost) i ymgysylltu â'r cyhoedd.

² Cyfwng hyder Gogledd Cymru +/- 1.8 y cant.

³ Cyfwng hyder Cymru a Lloegr +/- 0.2 y cant.

Ffigwr 2: Dulliau ymgysylltu â'r cyhoedd a ddefnyddir gan Heddlu Gogledd Cymru yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015

| A yw'r Heddlu yn defnyddio'r ffrydiau cyfathrebu canlynol? | |
|---|---------|
| Facebook | Ydi |
| Twitter | Ydi |
| E-bost | Ydi |
| Neges testun | Ydi |
| Fforwm y we | Nac Ydi |
| Instagram | Nac Ydi |
| Ffôn lleol (nid 999 na 101) | Ydi |

Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC.

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli galw?

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod yr angen i leihau galwadau diangen ar amser yr heddlu ac mae yn y camau cynnar o weithredu i reoli galw ar ei wasanaethau yn well. Mae'r ddealltwriaeth well o ffynonellau a natur galw am wasanaethau'r heddlu sy'n dod i mewn trwy'r ystafell reoli wedi ei helpu i nodi ble mae yna gwmpas i leihau galw a gwella effeithlonrwydd yn y modd y defnyddir adnoddau.

Mae'r heddlu'n cydnabod nad yw'r holl alwadau i wasanaeth yn galw am bresenoldeb yr heddlu. Bellach ceir mwy o ymchwiliadau desg a gyflawnir gan y tîm cefnogaeth ymchwiliadau sydd wedi ei leoli yn yr ystafell reoli. Golyga hyn yr arbedir amser swyddogion yr heddlu trwy beidio ymateb i alwadau a digwyddiadau y gellir eu datrys yn foddhaol heb fynychu. Cafwyd lleihad mewn galwadau i'r ystafell reoli sydd wedi galluogi defnydd mwy effeithlon o adnoddau ateb galwadau, sy'n gallu canolbwyntio ar ddelio'n effeithiol gydag argyfyngau a galwadau blaenoriaeth.

Pa mor dda mae'r heddlu yn monitro a deall allbynnau, canlyniadau a chostau?

Mae'r heddlu yn meincnodi ei hun yn erbyn heddluoedd eraill tebyg i nodi unrhyw feysydd ble gellir gwella. Gwneir defnydd da o broffiliau gwerth am arian HMIC i nodi meysydd ble gellir sicrhau arbedion. Fodd bynnag, ar adeg cyflawni'r archwiliad ychydig o waith oedd wedi ei gwblhau i ddeall faint mae gwasanaethau unigol yn costio a sut mae cost y gwasanaethau yn cymharu â'r canlyniadau a sicrhawyd. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i'r heddlu ddeall effaith lleihau lefelau gwasanaeth yn y dyfodol neu i fod yn sicr bod gwasanaethau cyfredol yn darparu gwerth am arian.

Mae yna gynllun gweithredu sy'n sefydlu sut fydd yr heddlu'n cyflawni'r blaenoriaethau yng nghynllun heddlu a throsteddu'r comisiynydd heddlu a throstedd. Ceir adroddiad chwarterol i'r comisiynydd heddlu a throstedd yn amlygu cynnydd yn erbyn pob ffrwd o'r cynllun.

Mae yna strwythurau llywodraethu clir a thrylwyr ar waith i alluogi'r bwrdd cynllunio strategol i gynnal trosolwg o berfformiad a chynnydd ar draws yr holl feysydd busnes a chynlluniau arbedion. Mae yna drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith. Mae'r heddlu'n symud yn weithredol oddi wrth ymagwedd wedi ei harwain gan dargedau i fesur ei berfformiad tuag at un o ymateb i alw a ffocysu ar fregusrwydd. Mae'r prosesau yn dal i alluogi'r heddlu i fonitro ystod o fesurau perfformiad gydag adolygiad chwarterol o berfformiad pob maes gwaith. Mae perfformiad nawr yn cael ei asesu yn grwn, yn hytrach na dim ond ffocws cul ar droseddau a ddatryswyd neu'r nifer o fyrgleriaethau. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn ystyried y canlyniadau o safbwynt dioddefwr, gyda ffocws ar ddiogelu'r mwyaf bregus yn y gymuned.

Pa mor dda mae'r heddlu yn defnyddio dulliau gwaith newydd i wella gwasanaethau?

Mae'r heddlu'n agored i ddysgu o beth sy'n gweithio. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn arddangos parodrwydd clir i edrych tu hwnt i'w sefydliad ei hun i ddysgu o beth sy'n gweithio rhywle arall. Diolch i ddefnydd o herio allanol trwy ymgynghorwyr mae newid diwylliannol wedi ei gyflymu trwy ddefnyddio ymagwedd 'meddwl systemau'. Fodd bynnag, canfu HMIC bod Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn araf i uchafu arbedion effeithlonrwydd trwy ddefnyddio technoleg newydd, ac yn benodol y defnydd o ddata symudol. Gwnaethpwyd cais yn ddiweddar am gyllid grant y Swyddfa Gartref i ddarparu dyfeisiau symudol i swyddogion; fodd bynnag, ni fu hyn yn llwyddiannus ac mae'r heddlu wedi cyllidebu i ddarparu cyllid digonol i ddarparu'r rhain heb gefnogaeth allanol. Nid oes strategaeth ariannol hirdymor ar gyfer TG a phlisma digidol.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno rhaglen welliant, y fenter 'Bod yn Well'. Mae wedi gosod gweledigaeth glir a chyfres o egwyddorion ar gyfer gwella gwasanaethau, sydd wedi ei gyfathrebu'n eang a'i ddeall yn dda gan staff. Comisiynodd yr heddlu ymgynghorwyr allanol yn gyntaf i'w helpu i ddatblygu ymagwedd i welliant parhaus yn defnyddio dull a elwir yn 'feddwl systemau'. Mae hyn wedi arwain at ystod o weithgareddau gwelliant a chynlluniau arbedion ar amrywiol gyfnodau o'r datblygiad. Er bod trefniadau clir ar waith i fonitro a goruchwylio cynnydd y cynlluniau hyn, nid oes unrhyw raglen newid trosfwaol a fydd yn sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth dda o'r rhaglen newid yn eich cyfanrwydd, gan gynnwys unrhyw gyd-ddibyniaeth rhwng y gwahanol ffrydiau gwaith.

Mae'r heddlu'n gweithio ar draws tirlun cymhleth o bartneriaethau, cynghreiriau a chydweithrediadau. Mae HMIC wedi ei galonogi y cafwyd rhywfaint o gynnydd mewn cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru. Mae'r

heddlu'n rhannu ei ystafell reoli gyda'r gwasanaeth tân ac achub, ac yn ceisio annog y gwasanaeth ambiwlans i wneud hynny hefyd. Mae yna un ganolfan ddiogelu amlasiantaethol⁴ nawr yn gweithio yn Wrecsam. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o ran yr aildrefnu arfaethedig o lywodraeth leol yng Nghymru wedi arwain at oedi o ran datblygu gweithio mewn partneriaeth well gyda'r chwe awdurdod lleol yn ardal yr heddlu.

Oherwydd ei leoliad, mae Heddlu Gogledd Cymru yn darganfod bod yna yn aml mwy o fanteision o gydweithredu gyda heddluoedd eraill yng Ngogledd Orllewin Lloegr na gyda'r heddluoedd Cymreig eraill neu sectorau sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Mae gwaith pwrpasol yn dal i gael ei wneud gyda heddluoedd i gydweithredu cymaint â phosibl. Mae'r heddlu yn rhan o uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol y Gogledd Orllewin a elwir yn Titan, ble mae adnoddau heddlu ar draws y Gogledd Orllewin wedi eu cronni i daclo'r troseddau mwyaf difrifol sy'n croesi ffiniau sirol yn y rhanbarth. Mae hefyd yn cydweithredu gyda Chwnstabiliaeth Swydd Gaer i ddarparu tîm drylliau ar y cyd yn gwasanaethu'r ddwy ardal; mae'r ddau wedi sicrhau arbedion, yn ogystal â darparu mwy o wytnwch a gwell gwasanaeth nag y byddai Gogledd Cymru wedi gallu ei fforddio ei hun.

Fodd bynnag, yn wahanol i heddluoedd eraill, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn araf i harneisio manteision technoleg ddigidol i wneud plismona'n fwy effeithiol. Mae'r heddlu yn cymryd rhan yng nghydweithrediad 'Minerva Niche' gyda heddluoedd eraill ar draws Cymru a Lloegr yn defnyddio'r un system TG, sy'n darparu buddion gweithredol ac arbedion cost trwy arbedion maint. Ceir tystiolaeth fwy cyfyngedig bod yr heddlu yn gwneud defnydd digonol o dechnoleg symudol i alluogi swyddogion rheng flaen i gael mynediad at systemau TG a gwybodaeth yr heddlu er mwyn gallu gweithio'n effeithiol ac effeithlon heb fod angen dychwelyd i orsaf heddlu. Darparwyd dyfeisiau Blackberry i staff, ond nid ydynt wedi cael mynediad llawn at systemau'r heddlu ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n helaeth iawn. Mae offer technolegol arall i wella effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth yn dod yn gyffredin mewn mannau eraill, ond nid ydynt wedi eu darparu ar gyfer swyddogion Gogledd Cymru o hyd, megis camerâu a wisgir ar y corff. Ar adeg yr archwiliad, fe welodd HMIC mai dim ond un camera corff (BWV) oedd ar gael ar gyfer pob shift mewn un ardal. Bydd astudiaeth buddion arfaethedig yn ystyried a ddylid ehangu defnydd o'r BWV.

⁴ Mae canolfan ddiogelu amlasiantaethol (MASH) yn uno staff yr heddlu ac asiantaethau partner, megis gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd sy'n gweithio o'r un lleoliad, rhannu gwybodaeth a sicrhau ymateb amserol a chyfunol i ddiogelu plant ac oedolion bregus.

Crynodeb o ganfyddiadau



Da

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o alw er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau fwyaf effeithiol i flaenoriaethu ac ymateb i alw. Mae wedi gwella ei ddealltwriaeth o alw ac yn rheoli galw yn well ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Mae yna strwythurau llywodraethu clir a thrylwyr ar waith i alluogi tîm arweinyddiaeth yr heddlu i gynnal trosolwg o berfformiad a chynnydd ar draws yr holl feysydd busnes a chynlluniau arbedion. Fodd bynnag, nid oes rhaglen newid trosfwaol ar gyfer pawb sy'n ymwneud i ddeall y gyd-ddibyniaeth rhwng yr holl ffrydiau gwaith, cynlluniau arbedion, adolygiadau a phrosiectau eraill sydd eisoes wedi eu gweithredu, ar y ffordd, ac yn arfaethedig

Mae'r heddlu wedi bod yn araf i ddatblygu ymagwedd i fuddsoddi mewn technoleg newydd i uchafu effeithlonrwydd trwy, er enghraifft, ddarparu mynediad i ddata symudol ar gyfer staff rheng flaen. Gallai hyn arafu newid ac mae'n rhwystr posibl i alluogi'r heddlu i reoli gostyngiadau gweithlu gyda'r effaith isaf posibl ar wasanaeth.

Mae HMIC yn cydnabod yr heriau cymhleth mae Heddlu Gogledd Cymru yn wynebu wrth ddatblygu partneriaethau effeithiol yn lleol a rhanbarthol. Mae ymdrechion amlwg yr heddlu i gronni adnoddau cymaint â phosibl i sicrhau cynnydd mewn effeithlonrwydd a gwasanaethau mwy gwydn wedi ein plesio.

Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw'r model gweithlu?


Archwiliodd HMIC sut mae Heddlu Gogledd Cymru wedi strwythuro ei weithlu (h.y. ei gyfuniad o swyddogion yr heddlu, staff a PCSOs, a'r gyfran o'r holl grwpiau hyn yn gweithio mewn swyddi rheng flaen), ac wedi asesu a oedd hyn yn fforddiadwy a chynaliadwy wrth i'r heddlu ymateb i'w her ariannol. Fe ystyriom hefyd beth mae'r heddlu yn ei wneud i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau a gallu priodol i frwydro troseddau a chadw cymunedau'n ddiogel nawr ac yn y dyfodol.

Pa mor dda mae model gweithlu presennol yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

Rhagwelodd Heddlu Gogledd Cymru gyfanswm gofyniad arbedion dros bedair blynedd gyntaf yr arolwg o wariant (2011/12 i 2014/15) o £17.88m, sy'n cyfateb i 11 y cant o wariant refeniw gros 2010/11 yr heddlu. Sicrhawyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau. Ers 2010, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gweld lleihad o 103 o swyddogion yr heddlu a 36 o staff gyda chynnydd o 87 PCSOs cyfatebol i lawn amser (FTE).

Yng Ngogledd Cymru, cafwyd gostyngiadau yng nghyfanswm y nifer o swyddogion yr heddlu (FTE) dros y cyfnod 2010 i 2015, fel y gwelir yn ffigwr 3. Yn ystod y cyfnod amser hwn, mae'r gyfran o rolau rheng flaen wedi codi o 92 y cant yn 2010 i 95 y cant yn 2015. Mae'r heddlu yn disgwyl cynyddu'r gyfran hon wrth edrych ymlaen at 2018.

Ffigwr 3: Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth fusnes yn Heddlu Gogledd Cymru, o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.



Ffynhonnell: Data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref a chasglu data effeithlonwydd HMIC

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 3, gweler Atodiad B

Mae'r model gweithlu presennol yn gallu paru galw a'r gofynion sefydliadol. Fodd bynnag, mae'r heddlu yn gweithredu gyda nifer uwch nag y darparwyd ar eu cyfer yn y gyllideb o swyddogion yr heddlu. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy, ac mae'n fforddiadwy dim ond am fod y PCC wedi cytuno i ariannu cost swyddogion yr heddlu ychwanegol o'r lefel uchel bresennol o gronfeydd.

Ers 2010 pan ddechreuodd grantiau canolog i heddluoedd leihau o ganlyniad i adolygiad gwariant y llywodraeth, mae'r PCC wedi ceisio mantoli yn erbyn y toriadau grant trwy gynyddu'r elfen o dreth gyngor a delir i'r heddlu, a elwir yn braesept. Cytunwyd ar gynnydd praesept uwchben lefel chwyddiant pob blwyddyn ac o ganlyniad mae effaith gyffredinol cyni ar gyllideb yr heddlu wedi bod yn gymharol lai llym na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid grant ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSOs) i holl heddluoedd Cymru, sydd wedi caniatáu i Ogledd Cymru gynyddu'r nifer o PCSOs mae'n cyflogi o 55 y cant ers 2010. Felly mae'r heddlu wedi gallu rheoli ei leihad cyllideb hyd yn hyn gyda gostyngiad o 2% ym maint y gweithlu, un o'r gostyngiadau lleiaf yn niferoedd swyddogion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r heddlu hefyd wedi targedu adnodd atodol i feysydd blaenoriaeth megis camfanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau seiber.

Dros gyfnod yr adolygiad o wariant, mae'r heddlu wedi lleihau ei wariant fwy nag sydd angen ac wedi tanwario ar ei gyllideb pob blwyddyn. Mae'r tanwariant wedi ei ychwanegu i gronfeydd a'i neilltuo i fuddsoddi mewn newid yn y dyfodol. Mae'r comisiynydd heddlu a throsedd wedi cytuno'n ddiweddar ar ymagwedd i ddefnyddio rhai o'r cronfeydd hyn i wario mwy nag y neilltuwyd yn y gyllideb ar recriwtio swyddogion yr heddlu atodol er mwyn galluogi swyddogion sydd newydd eu recriwtio i gael hyfforddiant llawn cyn eu gosod mewn swyddi gweithredol. Mae'r comisiynydd heddlu a throsedd wedi cytuno i wario £2.5m dros y tair blynedd nesaf o'i gronfeydd i'r diben hwn. Ar hyn o bryd mae 70 yn fwy o swyddogion yr heddlu wedi eu cyflogai nag y neilltuwyd cyllideb ar eu cyfer. Mae cyfartaledd cost fesul swyddog tua £45,000 y flwyddyn sy'n golygu y bydd cymaint â hyn o swyddi ar draws y sefydliad yn costio tua £3m yn ychwanegol y flwyddyn; nid yw hyn yn gynaliadwy.

Mae'r heddlu wedi trefnu plismona lleol i dair ardal ddaearyddol, Dwyrain, Canol a Gorllewin, gyda deg tîm dosbarth. Cefnogir plismona lleol gyda staff arbenigol ar draws yr heddlu. Cyflwynwyd y model hwn yn 2012. Mae'r heddlu wedi cyflawni adolygiad o ddulliau gweithio gyda'r bwriad o ddatblygu model plismona mwy effeithiol ac effeithlon a brofwyd yn un o'i ddeg dosbarth yn 2013 a elwir yn arbrawf Sir y Fflint. Datblygwyd y treial o adolygiadau meddwl systemau. Cafodd staff yn ardal Sir y Fflint gyfle i ddatblygu'r model heb unrhyw gyfyngiadau na chanlyniadau gosodedig. Nododd yr arbrawf bod y ffordd mae ystafell reoli'r heddlu yn gweithio ar y cyd â phlismona lleol yn rhwystr i effeithlonrwydd ac fe awgrymwyd model amgen a fyddai'n darparu ystafelloedd rheoli lleol i hwyluso mwy o gydweithredu. Nid oedd y model yn fforddiadwy ac felly ni aethpwyd ar drywydd hyn; fodd bynnag, mae'r gwersi a ddysgwyd trwy'r ymarfer wedi hysbysu gwaith pellach ar baru'r model gweithredol i ymateb yn well i alw.

Pa mor dda mae model gweithlu rhagweledig yr heddlu yn cyd-fynd â galw, gofynion sefydliadol ac ariannol?

Ffigwr 4: Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru o gymharu â Chymru a Lloegr

| | Mawrth 2010 | Gwahaniaeth rhwng 2010 a 2015 | | Mawrth 2015 | Gwahaniaeth rhwng 2015 a 2018 | | Mawrth 2018 |
|--|--------------|-------------------------------|----------------|--------------|-------------------------------|----------------|--------------|
| | | Gorllewin Swydd Efrog | Cymru a Lloegr | | Gorllewin Swydd Efrog | Cymru a Lloegr | |
| Swyddogion yr Heddlu | 1,590 | -6% | -12% | 1,487 | -2% | -6% | 1,457 |
| Staff yr Heddlu | 921 | -4% | -19% | 885 | -4% | -6% | 849 |
| Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu | 157 | 55% | -27% | 243 | -17% | -11% | 202 |
| Cyfanswm gweithlu | 2,667 | -2% | -15% | 2,615 | -4% | -6% | 2,508 |

Ffynhonnell: Casglu data effeithlonrwydd HMIC ac ystadegau gweithlu'r Swyddfa Gartref

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 4, gweler Atodiad B

Nid oes gweledigaeth glir eto ar gyfer model gweithlu'r dyfodol. Mae'r heddlu yn y camau cynnar o bennu sut allai fod angen newid y model presennol i alluogi toriadau pellach yn niferoedd staff ac yn dal i ddarparu lefel gynaliadwy o blismona ar draws Gogledd Cymru.

Mae prosiect yn edrych ar yr opsiynau ar hyn o bryd. Yr amcan yw i ganfod model fydd yn gallu gweithredu gyda'r gostyngiadau yn y gweithlu mae'r heddlu'n rhagweld fydd angen eu gwneud yn y tair blynedd nesaf. Un o'r effeithiau mwyaf ar y gweithlu yn y dyfodol fydd y lleihad arfaethedig o 17 y cant yn y nifer o PCSOs ar draws yr heddlu erbyn Mawrth 2018. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae'r heddlu wedi dechrau edrych ar ymagwedd fwy gwyddonol i fodolau neilltuo adnoddau i allu pennu ble i wneud toriadau fydd yn cael effaith gyfartal ar draws y tair ardal. Mae mynegai amddifadedd lluosog Cymru (WIMD) wedi ei bennu fel y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer dyrannu adnoddau PCSO. Fodd bynnag, pe byddai'r heddlu'n dilyn yr ymagwedd WIMD ar gyfer holl adnoddau swyddogion yr heddlu, mae'n amcangyfrif na fyddai'r model presennol o ddeg dosbarth plismona yn gynaliadwy gyda'r heddlu'n methu darparu galluedd plismona gwydn llawn i ardaloedd gwledig y Gorllewin a'r Canol.

Mae'r heddlu'n cyflawni adolygiad o blismona cymdogaeth, gan ddisgwyl y bydd hyn yn darparu gwell eglurder o ran sut mae'r heddlu'n gweld y dyfodol ar gyfer plismona cymdogaeth. Nid yw'r heddlu wedi gwerthuso'r effaith bosibl ar blismona cymdogaeth ac ar leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eto (trwy ddatrys problemau lleol a phlismona ataliol) o ganlyniad i leihad o 41 o swyddi PCSO ar draws yr heddlu erbyn Mawrth 2018.

Nid yw gwaith ar fodelu gweithredol a phlismona cymdogaeth wedi ei gysylltu i waith ar leihau galw neu ddefnydd o ddata symudol a gweithio mwy ystwyth yn y dyfodol eto. Nid yw'r heddlu mewn sefyllfa i allu gwneud penderfyniadau am y model yn y dyfodol eto nes y gwneir gwaith pellach ar ddatblygu a chydlynu nifer o feysydd gwaith cysylltiedig.

Crynodeb o ganfyddiadau



Angen gwelliant

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi wynebu gostyngiadau tebyg yn ei wariant â'r rhan fwyaf o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi cael incwm ychwanegol o'r dreth gyngor i wneud iawn yn rhannol am ostyngiadau grant y llywodraeth. Mae'r heddlu felly wedi cyflawni ei arbedion gyda thoriadau llai na'r cyfartaledd i'r gweithlu a dim ond newid cyfyngedig i'r model gweithredu. Mae'r heddlu ar hyn o bryd yn cyflogi mwy o swyddogion yr heddlu nag y mae wedi darparu ar eu cyfer yn y gyllideb, i'w alluogi i fodloni'r holl alwadau ac mae wedi gallu gosod adnoddau ychwanegol mewn ardaloedd sy'n flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn fforddiadwy dim ond am fod y comisiynydd heddlu a throedd yn ariannu cost swyddogion yr heddlu ychwanegol o'r lefel uchel bresennol o gronfeydd; nid yw hyn yn gynaliadwy.

Mae'r heddlu'n rhagweld y bydd angen lleihau niferoedd y gweithlu i gyflawni gostyngiadau i gyllideb yn y dyfodol, er bod hyn yn dal o gyfran llawer is na'r rhan fwyaf o heddluoedd.

Mae'r heddlu eisoes yn y camau cynnar o gynllunio model gweithredu newydd sy'n gallu darparu plismona effeithiol gyda llai o staff. Nid yw wedi cysylltu'r cynllun gyda gwaith ar leihau galw neu ddefnydd o ddata symudol a gweithio ystwyth yn y dyfodol. Felly nid yw Heddlu Gogledd Cymru yn gallu gwneud penderfyniadau am y model yn y dyfodol nes y gwneir cynnydd pellach ar ddatblygu a chydlynu nifer o feysydd gwaith cysylltiedig.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu sicrhau bod gan ei fodel gweithredu newydd gyswllt clir i leihau galw a gwaith data symudol a'i fod yn gallu darparu plismona effeithiol gyda gweithlu llai.


Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor byr a hir?

Archwiliodd HMIC sut mae heddluoedd wedi sicrhau arbedion dros y cyfnod adolygiad o wariant, y cynlluniau arbedion mae heddluoedd wedi datblygu ar gyfer y dyfodol a thybiaethau'r heddlu o ran deall yr heriau ariannol i ddod. Rydym hefyd wedi asesu a oes gan heddluoedd reoliadau a llywodraethu ariannol da, ac os yw gwario yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun plismona a throseddau.

A yw'r heddlu wedi cyflawni ei ofynion arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant a 2014/15?

Rhagwelodd Heddlu Gogledd Cymru arbedion o £17.88m dros bedair blynedd gyntaf yr adolygiad gwariant (2011/12 i 2014/15), sy'n cyfateb i 11 y cant o wariant referniw gros 2010/11 yr heddlu. Dros y cyfnod, cafwyd arbedion yn y cyllidebau cyflogau ac nad ydynt yn gyflogau, er mwyn mantoli'r cyllidebau erbyn 2014/15. Dros yr un cyfnod, rhagwelodd yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr ofyniad cyfanswm arbedion o £2.53bn, sy'n cyfateb i 18.2 y cant o wariant referniw gros 2010/11 ar gyfer Cymru a Lloegr

Ffigwr 5: Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, ac arbedion arfaethedig a ragwelir ar gyfer 2015/16 i 2018/19, yn erbyn llinell sylfaen gwariant refeniw gros 2010 ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru a Chymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data plismona mewn cyni HMIC, casglu data effeithlonrwydd HMIC a data Dadansoddiad Amcan yr Heddlu y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigwr 5, gweler Atodiad B

Mae'r heddlu nawr wedi cyflawni cyfanswm ei ofyniad arbedion o £17.9m dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi wynebu llai o her yn gymharol na'r rhan fwyaf o heddluoedd wrth gydbwysu ei gyllideb dros y cyfnod hwn. Mae'r comisiynydd heddlu a throsedd a'r heddlu wedi ceisio mantoli effaith toriadau mewn grantiau canolog pob blwyddyn trwy gynyddu'r praesept pob blwyddyn yn fwy na chwyddiant. O ganlyniad, mae incwm praesept nawr yn atebol am gyfran fwy o gyfanswm yr incwm ar gyfer yr heddlu na chyfartaledd Cymru, ac ar hyn o bryd mae trigolion Gogledd Cymru yn talu mwy am wasanaethau'r heddlu trwy'r dreth gyngor o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, fel y gwelir yn Ffigwr 6.

Mae'r heddlu wedi cynllunio cyllideb gytbwys trwy gydol yr adolygiad o wariant ac wedi gorffen pob blwyddyn hyd at 2014/15 gyda thanwariant. Mae hyn wedi golygu bod yr heddlu wedi gallu cynyddu ei gronfeydd mewn cyllid a glustnodwyd ar gyfer cost newid yn y dyfodol i lefel uchel.

Clustnodwyd cronfa i alluogi'r heddlu i recriwtio mwy o swyddogion yr heddlu nag y neilltuwyd yn y gyllideb dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r heddlu'n bwriadu defnyddio cronfeydd i recriwtio 50 o swyddogion newydd atodol dros y lefel y a neilltuwyd yn y gyllideb, felly erbyn i'r rhai sydd newydd eu recriwtio gael eu hyfforddi'n llawn byddant yn gallu llenwi swyddi gwag fel swyddogion cwbl weithredol.

Pa mor dda mae'r heddlu wedi cydbwysu'r gyllideb ar gyfer 2015/16?


Mae gan Heddlu Gogledd Cymru gyllideb gytbwys arfaethedig o £154.9m ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys toriad mewn gwariant o £4.5m. Rhagwelir y bydd y lleihad yn cael ei rannu rhwng £3.1m o'r gyllideb cyflogau (69 y cant) a £1.4m (31 y cant) o'r gyllideb nad yw'n gyflogau yn arbedion eleni. Mae'r heddlu yn bwriadu bodloni ei leihad mewn gwariant heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i bontio. Ers llinell sylfaen 2010, ar ddechrau'r adolygiad o wariant, mae hyn yn cynrychioli arbediad o 14 y cant.

Fe gydbwysodd yr heddlu ei gyllideb trwy gyfuniad o arbedion o ystod o brosiectau arbedion a thoriadau cyllideb eraill. Ar yr un pryd, yn 2014/15, cafwyd cynnydd o 3.18 y cant yn y praesept oedd yn uwch nag y tybiwyd yn flaenorol ac a olygai bod gan yr heddlu fwch cyllido llai nag y bwriadwyd.

Pa mor dda mae'r heddlu wedi uchafu cyfleoedd cyllido eraill?

Mae ffigwr 6 yn arddangos faint o gyllid mae'r heddlu wedi ei dderbyn o grant llywodraeth ganolog, fel praesept gan gynghorau lleol trwy'r dreth gyngor, a gan ffynonellau eraill, megis grantiau arbennig y Swyddfa Gartref. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl i'r gyfradd o'i gyllid a ddaw o gyllid llywodraeth y setliad craidd i leihau dros y blynyddoedd i ddod, wrth ragweld y bydd y gyfran o'i gyllid a ddaw o'r praesept (cyllid y dreth gyngor) yn cynyddu dros yr un cyfnod amser. Dylid nodi bod y sefydliad canolog cyllid y llywodraeth, o ran gwerth ariannol a chyfrannau o gyfanswm cyllid, a ddisgrifir yn ffigwr 6, yn dod o amcangyfrifon yr heddlu a gesglir yn rhan o gasgliad data archwiliad effeithlonrwydd HMIC. Ni ddylid ystyried y data hwn fel rhagolwg swyddogol. Mae'r Swyddfa Gartref yn y broses o ymgynghori ar newidiadau i fformwla cyllido'r heddluoedd ac felly gallai unrhyw ragolygon presennol newid yn ystod y cyfnod amser a amlygir.

Ffigwr 6: Cyfuniad a ragwelir o gyllid ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru yn y 12 mis i 31 Mawrth 2015 i'r 12 mis i 31 Mawrth 2019, o gymharu â heddluoedd Cymru



Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC

Mae yna ryw faint o gydweithredu positif ac adeiladol gyda heddluoedd yng Ngogledd Orllewin Lloegr, gyda holl heddluoedd Cymru a sefydliadau partner eraill, sy'n galluogi'r heddlu i weithio'n fwy effeithiol a darparu gwasanaeth heddlu mwy gwydn. Fodd bynnag, mae faint mae Heddlu Gogledd Cymru yn ei wario ar swyddogaethau ar y cyd â heddluoedd eraill yn gymharol isel ar bump y cant o wariant referniw net yn 2015/16, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r heddlu'n bwriadu archwilio cyfleoedd eraill ar gyfer cydweithredu dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig, er nad yw'n bwriadu cynyddu'r gyfran o wariant dros bump y cant.


Nid oedd cais plismona digidol yr heddlu ar gyfer Cronfa Arloesi'r Heddlu yn llwyddiannus, ond cafwyd dau gais llwyddiannus yn 2015/16 i gefnogi datblygiadau o ran taclo camfanteisio'n rhywiol ar blant a delio gyda phobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

Pa mor dda mae'r heddlu yn rheoli gwariant?

Mae lefel cronfeydd wrth gefn yr heddlu a sut y rhagwelir y byddant yn newid dros amser wedi ei nodi yn ffigur 7. Adroddodd Heddlu Gogledd Cymru bod cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn yn £36.5m yn 2014/15. Mae'r rhain wedi eu didoli i sawl categori:

- cronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo – swm i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu i leddfu llif arian anwastad;
- cronfeydd a neilltuwyd (clustnodwyd) – mae'r rhain yn gronfeydd a neilltuwyd ar gyfer dibenion cyfalaf penodol;
- cronfeydd derbynebion cyfalaf – mae'r rhain yn elw o werthu asedau y gellir eu defnyddio ar gyfer dibenion cyfalaf penodol yn unig; a
- cyfalaf cyffredinol i gefnogi gwariant cyfalaf arfaethedig yn y dyfodol.

Ffigur 7: Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant referiw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19



Ffynhonnell: Casgliad data effeithlonrwydd HMIC.

Am ragor o wybodaeth ynghylch y data ar gyfer ffigur 7, gweler Atodiad B

Mae gan yr heddlu hanes da o gyflawni ei arbedion, gyda gostyngiad bychan iawn yn niferoedd swyddogion yr heddlu, trwy reoliadau ariannol cryf. Mae tanwario cyson dros y cyfnod hwn wedi ychwanegu at lefelau sydd eisoes yn uchel o gronfeydd wrth gefn, ond mae bwriad i leihau'r cronfeydd i lefelau mwy realistig, gan eu defnyddio i

daluo am swyddogion yr heddlu atodol ac i fuddsoddi mewn prosiectau newid. Dros y pedair blynedd nesaf, disgwylir i'r cronfeydd ostwng o £36.5m yn 2014/15 i £17.1m erbyn 2018/19.

Pa mor dda mae cynlluniau ariannol yr heddlu yn adlewyrchu'r amcanion a sefydlwyd yng nghynllun heddlu a throsteddu'r PCC?

Mae'r cynlluniau ariannol wedi eu datblygu ar y cyd â swyddfa'r comisiynydd heddlu a throstedd (OPCC) ac wedi yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yng nghynllun yr heddlu a throsteddu.

Sef:

- atal trosteddau;
- darparu ymateb effeithiol;
- lleihau niwed a'r risg o niwed; ac
- adeiladu partneriaethau effeithiol.

Pa mor dda mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth ariannol amserol a pherthnasol i swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsteddu (OPCC) ac a ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau cyfredol ac yn y dyfodol?

Mae'r pennaeth cyllid yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda'r OPCC ac fe ddefnyddir tybiaethau a rennir i ddatblygu cynlluniau yn y dyfodol. Ceir monitro ariannol rheolaidd a chadarn gydag adroddiadau i fwrdd cynllunio strategol yr heddlu a'r comisiynydd heddlu a throstedd. Fodd bynnag, mae HMIC yn pryderu bod yna rai risgiau allweddol yng nghynlluniau ariannol tymor canolig yr heddlu, a allai arwain at lai o incwm nag y tybir ar hyn o bryd. Pan adolygodd y llywodraeth y fformwla ar gyfer cyfrifo'r lefel o grant i heddluoedd unigol rai blynyddoedd yn ôl, roedd yn glir bod y fformwla newydd yn golygu y byddai rhai heddluoedd ar eu hennill yn sylweddol ac y byddai'n rhai'n colli cryn dipyn o gymharu â lefelau blaenorol. Cyflwynwyd mecanwaith gwanychu i leihau'r effaith ac fe gyfyngwyd ar y cynnydd a'r lleihad trwy'r hyn a alwyd yn grantiau lloriau a nenfydau. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi parhau i elwa o'r mecanwaith gwanychu; trwy dderbyn grant llawr sy'n ychwanegu tua £11m yn atodol y flwyddyn uwchlaw'r grant a osodwyd trwy weithredu'r fformwla cyllido yn gaeth. Mae'r llywodraeth yn y broses o adolygu fformwla cyllido'r heddlu unwaith eto, ac mae risg y bydd grant Heddlu Gogledd Cymru yn lleihau ar ryw bwynt yn y dyfodol o ganlyniad. Yn ogystal mae'r heddlu'n tybio y bydd cynnydd praesept blynyddol yn parhau i gael ei ddyfarnu (cynnydd o 3.8 y cant yn 2016/17, yna 2.8 y cant yn y ddwy flynedd nesaf) – gyda chyni'n parhau yn

y sector cyhoeddus mae risg na fydd hyn o reidrwydd yn wir. Nid yw'r cyllid grant atodol ar gyfer PCSOs gan Lywodraeth Cymru wedi ei warantu i barhau yn y tymor hirach.

Faint mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer arbedion pellach posibl wedi eu datblygu?

Mae'r heddlu wedi nodi £4.5m pellach mewn arbedion yn 2015/16 ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld y bydd angen arbed £11m arall rhwng 2016/17 a 2018/19. Mae yna gynlluniau manwl ar waith sy'n darparu hyder y gall yr heddlu gyflawni'r arbedion gofynnol hyd at ddiwedd 2019/20, gyda dim ond bwlch bychan yn y gyllideb ar hyn o bryd. Bydd y prosiectau sydd eisoes ar waith yn cyflawni rhywfaint o'r arbedion dilynol ac mae'r heddlu nawr yn datblygu cynlluniau pellach i leihau gwariant o 2016/17 i bontio'r bwlch sy'n weddill.

Crynodeb o ganfyddiadau



Da

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru hanes da o reoli ei gyllid, gyda gostyngiad bychan iawn yn niferoedd swyddogion yr heddlu. Mae wedi cyflawni cyfanswm ei ofyniad arbedion o £17.9m dros y cyfnod adolygiad o wariant diwethaf. Trwy gydol y cyfnod hwn mae wedi wynebu llai o doriadau cyllideb na'r rhan fwyaf o heddluoedd eraill. Mae'r heddlu wedi cynllunio cyllideb gytbwys trwy gydol yr adolygiad o wariant ac wedi gorffen pob blwyddyn hyd at 2014/15 gyda thanwariant. Mae hyn wedi golygu bod yr heddlu wedi gallu cynyddu ei gronfeydd mewn cyllid a glustnodwyd ar gyfer cost newid yn y dyfodol i lefel uchel. Mae'r heddlu wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2015/16 gan wneud arbedion o £4.5m.

Arbedwyd mwy o arian nag oedd angen ac mae hyn wedi galluogi'r heddlu i gael un o'r gostyngiadau lleiaf yn nifer swyddogion yr heddlu yn genedlaethol dros y cyfnod adolygiad o wariant. Mae i ba raddau mae'r heddlu'n cydweithredu gydag eraill yn gymharol gyfyngedig. Mae wedi gwneud rhywfaint o ddefnydd o gyllid allanol, ond ni fu'n llwyddiannus mewn cais diweddar am fuddsoddiad mewn technoleg newydd.

Mae'r heddlu'n cydweithio'n agos gyda'r comisiynydd heddlu a throsedd ac mae cynlluniau ariannol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yng nghynllun yr heddlu a throseddu. Ceir cynlluniau manylach i ddarparu hyder y gall yr heddlu gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion gofynnol hyd at 2016/17. Mae nawr yn datblygu cynlluniau pellach i leihau gwariant wedi 2016/17.

Atodiad A – Dyfarniadau HMIC

Y categorïau yw:

- rhagorol;
- da;
- angen gwelliant ; ac
- annigonol.

Gwneir dyfarniad o ran pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Wrth weithredu'r categorïau, mae HMIC yn ystyried:

bod effeithlonrwydd yr heddlu yn dda, neu'n rhagori ar y safon hon yn ddigonol i gael ei farnu i fod yn rhagorol;

mae effeithlonrwydd yr heddlu angen gwelliant am nad yw eto'n perfformio'n ar lefel dda, ac/neu mae yna rai gwendidau yn y sefydliad; neu

mae effeithlonrwydd yr heddlu yn annigonol oherwydd ei fod yn sylweddol is nag y gellid disgwyl yn rhesymol.

Atodiad B – Rhagor o wybodaeth ynghylch y data yn ffigurau 3, 4, 5 a 7.

Ffigwr 3

Newidiadau arfaethedig i swyddi cyfatebol i lawn amser (FTE) swyddogion yr heddlu mewn rolau rheng flaen weithredol, cefnogaeth weithredol a chefnogaeth busnes yn yr heddlu/cwnstabiliaeth, 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018.

Daw'r data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 3, ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 601 ac nid yw'n cynnwys gweithlu a ddyrannwyd dan gategori '62 arall' tra bod y data a ddefnyddiwyd yn ffigwr 4 ar gyfer Mawrth 2010 a Mawrth 2015 o ddychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref 502 ac mae'n cynnwys y categori hwn. Felly efallai na fydd cyfansymiau data yn cyd-fynd yn union.

Ffigwr 4

Newidiadau arfaethedig mewn gweithlu FTE o 31 Mawrth 2010 i 31 Mawrth 2018 ar gyfer yr heddlu/cwnstabiliaeth o gymharu â Chymru a Lloegr. Mae'r ffigurau yn nhabl 4 wedi eu talgrynnu i'r person cyfan agosaf, cyfatebol i amser llawn (FTE), ac felly gallai fod ychydig yn wahanol i'r union ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad.

Ar gyfer data ar 31 Mawrth 2010 a 31 Mawrth 2015 rydym wedi defnyddio data dychweliad data blynyddol y Swyddfa Gartref sy'n FTE 'gwir', tra ar gyfer y rhagolygon ar gyfer Mawrth 2018 yn rhagolygon seiliedig ar gyllideb ac felly'n debygol o ystyried cyfradd swyddi gwag yn ddibynnol ar strategaeth gynllunio heddlu/cwnstabiliaeth. Mewn rhai achosion felly efallai na fydd cynnydd mewn swyddi a gyllidebwyd yn dangos bod yr heddlu/cwnstabiliaeth wir yn cynllunio i gynyddu eu gweithlu wrth symud ymlaen. Mewn achosion eraill, efallai y bydd heddluoedd yn bwriadu lleihau eu gweithlu ond bod ganddynt gyfradd swyddi gwag uchel bresennol sy'n celu'r newid hwn.

Oherwydd y darlun cymhleth ac esblygol o gydweithrediad rhwng gweithluoedd heddluoedd cymdogol, nid yw pob newid yn ffigurau'r gweithlu yn real o ran y gweithlu sydd ar gael. Byddai cynnwys cynghreiriau strategol ac/neu unedau troseddau cyfundrefnol (ROCU) yn enghraifft o hynt newidiadau dros gyfnod o amser ar sgiw. Felly mae angen ystyried cynnydd neu leihad llym dros amser yn ofalus gan y gallant gynrychioli newidiadau cyfrifyddu yn ymwneud â sut mae staff wedi eu dyrannu i heddluoedd, nid newidiadau real yn lefelau staffio.

Ar adeg yr archwiliad, roedd yr hinsawdd ariannol yn y dyfodol yn ansicr. Roedd sawl heddlu mewn sefyllfa ble nad oedd ganddynt gynlluniau wedi eu cadarnhau / cymeradwyo ar gyfer rhagolygon gweithlu.

Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau a ddarperir yn aml yn amcangyfrifon heb eu cadarnhau a ddarperir i gynorthwyo HMIC yn y rhaglen archwilio, ac ni ddylid eu hystyried i fod yn gynllun cadarn ar gyfer y tirlun plismona yn y dyfodol. Mae'r sylwadau hyn yn berthnasol i ffigwr 3 a ffigwr 4.

Ffigwr 5

Newid a amcangyfrifir mewn gwariant o 2011/12 i 2014/15, a newid a ragwelir mewn gwariant ar gyfer 2015/16 i 2019/20, yn erbyn llinell sylfaen GRE 2010 ar gyfer yr heddlu a Chymru a Lloegr

Mae ffigwr 5 yn dangos sut mae gwariant yr heddlu wedi newid yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant, o gymharu â'r cyfanswm newid mewn gwariant ar gyfer yr holl heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Ar gyfer 2015/16 ymlaen, cafwyd newid mewn methodoleg o gymharu â'r rhaglen Gwerthfawrogi'r Heddlu. Nid yw'r gofyniad arbedion bellach yn wariant refeniw gros (GRE) chwyddedig llai gwariant ond yn hytrach swm yr arbedion arfaethedig a defnydd o gronfeydd wrth gefn i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn. Mae'r newid hwn wedi ei ddynodi gan linell doredig fertigol ar y siart. Mae'r siart yn dangos arbedion arfaethedig (yn cynnwys defnydd o gronfeydd i bontio bwlch cyllid yn y flwyddyn) mewn blynyddoedd i ddod, wedi ei gyfrifo yn defnyddio'r arbedion arfaethedig ar gyfer cyllidebau cyflog ac nad ydynt yn gyflog a ddarparwyd i HMIC ar adeg casglu'r data (Chwefror 2015). Mae rhai heddluoedd wedi darparu ffigurau ar gyfer arbedion yr oeddynt wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar y pwynt hwnnw yn unig, tra bod eraill wedi darparu amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod cyfan. Felly nid yw gofynion arbedion bychan o reidrwydd yn cyfateb i her arbedion bychan yn y dyfodol.

Ffigwr 7

Dadansoddiad o gronfeydd sy'n weddill fel cyfran o wariant refeniw net yn y flwyddyn, a chyfanswm y cronfeydd sy'n weddill (£), ar gyfer 2014/15 i 2018/19

Yn ôl arolwg o gyfarwyddwyr ariannol a gwblhawyd gan y Comisiwn Archwilio⁵, ystyrir yn gyffredinol bod tri i bump y cant o wariant refeniw net yn lefel ddoeth o gronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo ar gyfer dibenion cynllunio seiliedig ar risg.

Sylwer y cedwir pob categori o gronfeydd wrth gefn ar gyfer yr heddlu/cwnstabiliaeth gan y PCC ar wahân i Ddinas Llundain a'r gwasanaeth heddlu Metropolitan, ble mae Corfforaeth Dinas Llundain a'r MOPAC yn cadw'r cronfeydd yn y drefn honno.

⁵ *Striking a balance: Improving councils' decision making on reserves*, Comisiwn Archwilio, Rhagfyr 2012. Ar gael o <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk>